# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1150(RAF) a gyhoeddwyd gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ar 19 Hydref 2010

**At Peter Black:**

Yn fy nghwestiynau Gweinidogol diwethaf, dywedais y byddwn yn ymchwilio i'r cwestiynau a godwyd gennych ynghylch y ffurflen ymateb ar-lein ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Gorchymyn Rheoli Moch Daear.

**Brechu**

Mae a wnelo un o'r cwestiynau sy'n rhan o'r ymgynghoriad â brechu. Yn fy marn i, prin yw'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael ar effeithiolrwydd y brechiad chwistrelladwy i foch daear ar foch daear a cheir llai byth o dystiolaeth ar ei effaith o ran lleihau TB mewn gwartheg. Yn fy marn i, nid yw brechu yn ddewis amgen dichonol yn lle difa o ran lleihau TB mewn gwartheg mewn ardaloedd lle mae'r clefyd yn endemig. Fodd bynnag, byddai diddordeb gennyf glywed barn pobl, ac os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, byddaf, wrth gwrs, yn ystyried y dystiolaeth honno.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Rwyf wedi ystyried eich honiad bod cwestiynau'r ymgynghoriad yn dangos rhagfarn. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr honiad hwn. Diben yr ymgynghoriad yw cael gwybod barn pobl, a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r camau gweithredu arfaethedig, er mwyn gwella'r broses gwneud penderfyniadau.

Fel rhan o ymgynghoriad, yn ogystal â gofyn a yw'r ymgyngoreion yn arddel barn benodol, mae hefyd yn arfer da holi pam y credant hynny, a rhoi cyfle iddynt fynegi eu rhesymau. Mae hyn yn arbennig o wir os yw eu barn yn wahanol i'r farn dros dro a roddwyd gennyf.

Rwyf wedi darllen y dystiolaeth ac wedi ei hystyried yn ofalus gan wneud penderfyniad dros dro. Bydd angen i mi ystyried yr holl ymatebion a gaf yn ofalus cyn gwneud penderfyniad terfynol o ran pa un a ddylid llunio'r Gorchymyn drafft ai peidio.

Nid oes unrhyw beth yn atal ymgynghorai sy'n anghytuno â'm safbwyntiau rhag nodi'n syml nad yw'n cefnogi'r safbwynt hwnnw heb roi unrhyw esboniad pellach.

Ond byddai o gymorth mawr i mi pe gallai pobl roi rhesymau am eu barn, yn enwedig os nad ydynt yn cytuno â'r hyn a gynigir gennyf. Dyna pam mae cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u cyflwyno yn y fath fodd.

Mae dogfennau'r ymgynghoriad yn nodi'n glir y gall pobl ymateb mewn sawl ffordd, naill ai ar-lein, drwy'r post neu drwy neges e-bost.